# CYNLLUN GWERS AR GYFER POPETH AM LYGREDD AER

ASTHMA+ LUNG UK

**Dyniaethau**

## Disgrifiadau o ddysgu

Rwy'n gallu disgrifio a rhoi esboniadau syml am effaith gweithredoedd dynol ar y byd naturiol yn y gorffennol a'r presennol.

## Amcanion y wers

- Deall beth yw llygredd aer.
- Deall beth sy'n achosi llygredd aer.
- Deall effeithiau llygredd aer.

## Datblygu sgiliau

- Meddwl yn feirniadol
- Defnyddio tystiolaeth i gefnogi esboniadau

### Adnoddau sydd eu hangen

- Cyflwyniad y Wers Popeth am Llygredd Aer
- Mynediad i'r rhyngrwyd (fel dosbarth, neu ddyfeisiau i ddisgyblion)
- Taflenni Gweithgaredd Allyriadau yn y DU
- Geiriau allweddol, os oes angen

Efallai y byddwch chi'n ei chael hi'n fuddiol ymgyfarwyddo â **map rhyngweithiol y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol** cyn y wers. Penderfynwch a fyddwch chi'n edrych ar hwn fel dosbarth ar fwrdd gwyn rhyngweithiol, neu a fydd disgyblion yn defnyddio dyfeisiau i ddefnyddio'r map rhyngweithiol allyriadau'r DU hwn.

| Geirfa allweddol | Dysgu blaenorol |
|---|---|
| Llygredd aer, llygryddion, ansawdd aer, ocsigen, carbon deuocsid, gronynnau, methan, tanwydd ffosil, osôn, allyriadau, trafnidiaeth, gweithgynhyrchu, diwydiannol, amaethyddiaeth a ffermio, sylweddau niweidiol, trefol, gwledig | Nid oes angen dysgu ymlaen llaw er y bydd rhai disgyblion yn ddi-os yn ymwybodol o'r llygredd aer, a'r effaith mae pobl yn ei chael ar y blaned a'r amgylchedd. Gwnewch gysylltiadau â gwybodaeth flaenorol, lle bo hynny'n briodol, i helpu i ddarparu cyd-destun ehangach ac adeiladu ar ddealltwriaeth disgyblion o lygredd aer. |

| Amser | Gweithgaredd Athrawon | Addasiadau |
|---|---|---|
| 5 munud | Defnyddiwch **Cyflwyniad y Wers** i gyflwyno teitl y wers, yna darllenwch amcanion dysgu'r wers a chyflwyno'r eirfa allweddol.<br><br>Defnyddiwch sleid 3 i ofyn i ddisgyblion beth maen nhw'n ei wybod eisoes am lygredd aer. Ewch ymlaen i esbonio beth yw llygredd aer. | Ewch ati i wahodd ac ateb cwestiynau drwy'r cyfan i sicrhau dealltwriaeth y disgyblion. Dangoswch neu rhannwch yr eirfa allweddol. |
| 10 munud | Defnyddiwch y sleidiau canlynol i ddysgu am wahanol fathau o lygryddion aer ac o ble maen nhw'n dod. Anogwch ddisgyblion i ddarllen y diffiniadau o lygryddion i'w paru â'u henw. | Efallai y byddwch chi'n gofyn i ddisgyblion wneud nodiadau yn eu llyfrau am enwau llygryddion ac o ble maen nhw'n dod. |
| 5 munud | Archwilio llygredd aer mewn ardaloedd trefol a gwledig.<br><br>Gofynnwch i ddisgyblion enwi dinasoedd a threfi maen nhw'n gyfarwydd â nhw, yna unrhyw ardaloedd gwledig maen nhw'n gwybod amdanynt. Gallai hyn gysylltu â'r ardal leol a'r lleoedd maen nhw wedi ymweld â nhw.<br><br>Gofynnwch i ddisgyblion ystyried sut allai'r ansawdd aer fod mewn trefi a dinasoedd o'i gymharu ag ardaloedd gwledig. | Dylech sicrhau bod disgyblion yn deall y termau trefol a gwledig, fel sydd wedi'u hegluro yng **Nghyflwyniad y Wers.** Ceisiwch ddefnyddio lleoedd mae disgyblion yn gyfarwydd â nhw i roi enghreifftiau o ardaloedd trefol a gwledig. |

| Amser | Gweithgaredd Athrawon | Addasiadau |
|---|---|---|
| 20 munud | Symudwch ymlaen i esbonio y gellir mesur y gwahanol allyriadau (llygryddion) yn yr aer ledled y DU. Unwaith eto, cysylltwch allyriadau ag ardaloedd trefol a gwledig.<br><br>Dosbarthwch y **Taflenni Gweithgareddau Allyriadau yn y DU** a dangos y **Map Rhyngweithiol Allyriadau'r DU** i'r disgyblion. Eglurwch y byddant heddiw yn dysgu am lefelau dau allyriad (plwm a methan) ledled y DU.<br><br>Hidlwch wybodaeth ar y map, yn ôl y cyfarwyddiadau yng **Nghyflwyniad y Wers**. Yna gall disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei gweld ar y map i labelu a chodio eu mapiau eu hunain. | Gallwch ddewis defnyddio'r map rhyngweithiol ar y bwrdd gwyn fel dosbarth, neu gallai disgyblion ei agor ar eu dyfeisiau.<br><br>Gallai disgyblion weithio'n unigol neu mewn parau. |
| 5 munud | Crynhowch yr hyn sydd wedi'i drafod yn y wers hon a gofynnwch i'r disgyblion rannu eu gwybodaeth gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y sleid.<br><br>Defnyddiwch y ddwy sleid olaf i atgoffa disgyblion bod aer llygredig yn ddrwg i'n hiechyd a bod A+LUK a sefydliadau eraill yn gweithio'n galed i wella ansawdd aer ar gyfer dyfodol gwell, glanach. | |

## Myfyrdodau gwers / camau nesaf / nodiadau athrawon

## Cyfleoedd asesu

- Ydy disgyblion yn gallu disgrifio beth yw llygredd aer a'i effeithiau?
- Ydy disgyblion yn gallu nodi achosion llygredd aer a nodi lleoedd yn y DU sydd â'r llygredd aer gwaethaf?
- Ydy disgyblion yn gallu esbonio'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a rhoi enghreifftiau o bob un?

## Awgrymiadau ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- Ymchwiliwch sut mae llygredd aer yn effeithio ar ddinasoedd mawr mewn gwledydd eraill a pha fesurau sydd wedi'u rhoi ar waith i geisio delio â'r mater.
- Gosodwch fonitorau ansawdd aer yn yr ysgol i nodi lefelau llygredd mewn gwahanol safleoedd ar dir yr ysgol. Ewch ati i gynnwys y myfyrwyr drwy gymryd darlleniadau a dadansoddi'r canlyniadau.

## Cyfleoedd dysgu yn y cartref

- Ymchwiliwch i hanes llygredd aer yn y DU a'r rhesymau dros wella ansawdd aer mewn sawl ardal yn ystod y degawdau diwethaf.
- Gwnewch boster am lygredd aer i ddangos gwahanol fathau o allyriadau a ffynonellau llygryddion amrywiol.